Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

Tribiwnlys Addysg Cymru

Canllaw i ymatebwyr ar baratoi datganiad achos ar gyfer hawliad

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am baratoi datganiadau achos mewn ymateb i hawliadau i Dribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys).

Ni allwn ymdrin â phopeth a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer pob hawliad. Yn dibynnu ar natur yr hawliad, efallai na fydd angen i chi anfon yr holl wybodaeth y sonnir amdani yn y llyfryn hwn. Cysylltwch â Thribiwnlys Addysg Cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses.

Clercod tribiwnlysoedd yw'r staff sy'n prosesu apeliadau. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu eich apêl y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymell a ddylech gymryd camau penodol.

I bwy mae'r canllawiau hyn?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cyrff cyfrifol sy'n ymateb i honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd sy'n cyrraedd Tribiwnlys Addysg Cymru.

Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae'r Tribiwnlys yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau am anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau'n rhwymo mewn cyfraith.

Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif fwriad y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i bob parti gydweithredu â'i gilydd, a'r Tribiwnlys, i symud yr apêl yn ei blaen. Gall hyn gynnwys cyfnewid gwybodaeth a dogfennau gyda phartïon eraill, neu gydweithio â cheisiadau'r Tribiwnlys yn fwy cyffredinol.

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn i ni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Adnoddau Gwybodaeth

- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

Cynnwys

1	**Cyflwyniad i wahaniaethu ar sail anabledd**	
	- Beth yw anabledd?	**3**
	- Pa agweddau ar Addysg y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymdrin â nhw?	**3**
	- Beth yw gwahaniaethu ar sail anabledd?	**4**
	- Beth yw'r mathau o wahaniaethu?	**4**
	- Pryd y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu?	**5**
	- Beth am y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol?	**5**
	- A ellir gwahaniaethu yn erbyn plentyn heb anabledd?	**5**
	- Beth arall allwn ni ei wneud i ddatrys yr anghydfod?	**6**
	- Beth am wasanaethau datrys anghydfod awdurdodau lleol?	**6**
2	**Hawliadau**	
	- Pa hawliadau y gall Tribiwnlys Addysg Cymru ymdrin â nhw?	**7**
	- Pwy all wneud hawliad?	**7**
	- Pwy yw'r corff cyfrifol?	**7**
	- Beth sy'n digwydd ar ôl i Dribiwnlys Addysg Cymru gael cais am hawliad?	**8**
	- A ddylem anghytuno â'r hawliad?	**8**
	- Beth os nad ydym yn gwrthwynebu'r hawliad?	**8**
	- Os ydym yn anghytuno â'r hawliad a fyddwn angen cynrychiolaeth gyfreithiol?	**9**
	- Beth os ydym yn penderfynu peidio ag ymateb?	**9**
	- Beth yw ddatganiad achos?	**9**
	- Sut i gyflwyno'ch ddatganiad achos	**9**
	- Y bwndel olaf o bapurau	**9**
	- Tystiolaeth ysgrifenedig hwyr	**10**
	- Diystyru hawliad	**10**
	- Dod i gytundeb	**11**
	- Gwrandawiadau	**11**
3	**Beth i'w gynnwys yn eich datganiad achos**	
	- Pa wybodaeth sy'n hanfodol?	**12**
	- Pa wybodaeth arall a ddylid ei gynnwys?	**12**
4	**Paratoi bwndel**	
	- Cyfrifoldebau	**15**
	- Paratoi bwndel	**15**
	- Cyflwyno'ch bwndel	**16**

1. Cyflwyniad i wahaniaethu ar sail anabledd

Beth yw anabledd?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan berson anabledd os:

- oes ganddo nam corfforol neu feddyliol; a
- bod y nam hwnnw'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Caiff cyflyrau cyffredin, neu gyflyrau sy'n rhai dros dro (fel clefyd y gwair neu dorasgwrn) eu heithrio o'r diffiniad. Ni fyddai gwisgo sbectol yn cyfrif fel anabledd os mai dyna'r unig anhawster yr oedd person yn ei wynebu. Byddai gan berson â sbectol anabledd pe bai'n cael anhawster mawr cyflawni tasgau bob dydd, hyd yn oed wrth wisgo sbectol.

Mae bod yn gaeth i sylweddau wedi'i eithrio o'r diffiniad.

Pa agweddau ar Addysg y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymdrin â nhw?

Rhaid i ysgolion beidio â gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu nac erlid person ar sail anabledd.

Mae'n anghyfreithlon i ysgolion anffafrio neu neilltuo disgyblion oherwydd eu hanabledd:

- mewn trefniadau a wneir ar gyfer penderfynu ar dderbyn disgyblion;
- yn nhelerau eu cynigion derbyn;
- wrth beidio â derbyn person fel disgybl;
- mewn gwaharddiadau parhaol neu gyfnod penodol;
- mewn gwaharddiadau amser cinio;
- yn y ffordd y maent yn darparu addysg;
- yn y ffordd y maent yn rhoi mynediad at fuddion, cyfleusterau neu wasanaethau yn yr ysgol i ddisgyblion;
- wrth beidio â rhoi mynediad at fudd, cyfleuster neu wasanaeth yn yr ysgol i ddisgybl;
- wrth roi disgybl dan unrhyw anfantais o ran buddion, cyfleusterau neu wasanaethau; ac
- wrth beidio â darparu addysg i ddisgybl.

Mae'r gyfraith yn berthnasol i'r hyn sy'n digwydd yn ystod amser egwyl, amser cinio a gwersi. Mae hefyd yn cwmpasu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, megis clybiau ysgol, clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau chwaraeon, a theithiau ysgol. Mae gan yr ysgol ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol sy'n helpu i gynnwys pob myfyriwr.

Beth yw gwahaniaethu ar sail anabledd?

Mae gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd pan fydd rhywun yn trin person arall yn anffafriol oherwydd anabledd.

Gall gwahaniaethu ar sail anabledd ddigwydd hefyd pan fydd rheol neu ffordd o wneud pethau yn rhoi pobl anabl dan anfantais. Os yw polisi ysgol yn ei gwneud yn anodd i ddisgybl anabl gymryd rhan mewn gweithgaredd ysgol, gall y polisi hwnnw fod yn wahaniaethol.

Beth yw'r mathau o wahaniaethu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl sydd ag anabledd (neu sydd wedi bod ag anabledd) rhag gwahanol fathau o wahaniaethu.

Y gwahanol fathau o wahaniaethu yw:

- gwahaniaethu uniongyrchol;
- gwahaniaethu anuniongyrchol;
- gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd;
- methu â darparu addasiad rhesymol ar gyfer plentyn anabl;
- aflonyddu; ac
- erledigaeth.

Mae **gwahaniaethu uniongyrchol** yn digwydd pan fydd rhywun yn trin person arall yn anffafriol oherwydd anabledd. Mae hefyd yn wahaniaethu uniongyrchol os yw'n credu'n anghywir bod gan y person anabledd. Os yw rhywun yn trin rhywun arall yn anffafriol oherwydd ei gysylltiad â disgybl anabl, gwahaniaethu uniongyrchol yw hyn hefyd.

Mae **gwahaniaethu anuniongyrchol** yn digwydd pan fydd rheol, polisi neu arfer yn cael yr effaith o roi disgyblion ag anabledd penodol o dan anfantais o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Rhaid i'r ysgol allu cyfiawnhau unrhyw reol, polisi neu arfer sy'n rhoi disgyblion o dan anfantais fel hyn.

Mae **gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd** yn digwydd pan fydd ysgol yn trin disgybl anabl yn anffafriol oherwydd rheswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Os gall yr ysgol neu'r awdurdod lleol ddangos nad oedd yn gwybod am anabledd y disgybl, neu na fyddai wedi bod yn rhesymol disgwyl iddo wybod, nid yw'n wahaniaethu.

Mae **methiant i ddarparu addasiad rhesymol ar gyfer plentyn anabl** yn digwydd pan nad yw ysgol yn cymryd camau rhesymol i osgoi anfantais a brofir gan ddisgyblion anabl. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gymryd camau cyn i'r disgybl fynychu'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ddyletswydd i gymryd camau cadarnhaol i sicrhau y gall disgybl anabl gymryd rhan lawn yn y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu. Mae dyletswydd yr ysgol i wneud addasiadau rhesymol

yn cynnwys darparu cymhorthion a gwasanaethau ategol. Mae'r rhain yn cynnwys offer cyfrifiadurol arbenigol, desgiau wedi'u haddasu neu therapi lleferydd ac iaith. Cymorth neu wasanaeth ategol yw unrhyw beth sy'n rhoi cefnogaeth neu gymorth ychwanegol i berson anabl. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i ysgol dynnu neu newid nodwedd ffisegol o'r ysgol.

Mae **aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd** yn digwydd pan fydd disgybl yn profi ymddygiad dieisiau, yn gysylltiedig ag anabledd, sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas unigolyn. Gall yr ymddygiad fod yn elyniaethus tuag at y disgybl neu ei ddiraddio, ei fychanu neu ei sarhau.

Mae **erledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd** yn digwydd pan fydd ysgol yn trin disgybl yn anffafriol am ei fod wedi cymryd camau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys triniaeth anffafriol i ddisgybl sy'n ystyried cymryd camau gweithredu, neu sy'n cefnogi person sy'n cymryd camau gweithredu.

Pryd y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu?

Gall gwahaniaethu fod yn gyfreithlon os gall yr ysgol neu'r awdurdod lleol ei gyfiawnhau. I wneud hynny, rhaid iddynt ddangos bod rheswm cyfreithlon a dilys dros y driniaeth. Rhaid iddynt brofi hefyd bod eu hymateb yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol. Mae hyn yn berthnasol i achosion o wahaniaethu anuniongyrchol a gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd.

Beth am y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol?

Rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais sylweddol o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Er enghraifft, cam rhesymol fyddai newid y ffordd y mae ysgolion yn gwneud pethau fel y gall myfyrwyr anabl ymuno mewn gweithgaredd.

Nid oes rhaid i ysgolion newid adeiladau fel rhan o addasiad rhesymol. Y rheswm am hyn yw bod gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wella mynediad i adeiladau dros amser yn lle hynny.

A ellir gwahaniaethu yn erbyn plentyn heb anabledd?

Mae pobl heb anabledd yn cael eu hamddiffyn rhag mathau penodol o ymddygiad anghyfreithlon gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- Mae **gwahaniaethu uniongyrchol ar sail cysylltiad** yn digwydd pan gaiff disgybl ei drin yn anffafriol oherwydd ei gysylltiad â pherson sydd ag anabledd.
- Mae **gwahaniaethu uniongyrchol ar sail canfyddiad** yn digwydd pan gaiff disgybl ei drin yn anffafriol oherwydd y gred anghywir bod ganddo anabledd.
- Mae **aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd** yn digwydd pan fydd disgybl yn profi ymddygiad dieisiau, yn gysylltiedig ag anabledd, sydd â'r diben neu'r

effaith o darfu ar urddas unigolyn. Gall yr ymddygiad fod yn elyniaethus tuag at y disgybl neu ei ddiraddio, ei fychanu neu ei sarhau.

- Mae **erledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd** yn digwydd pan fydd ysgol yn trin disgybl yn anffafriol am ei fod wedi cymryd camau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys triniaeth anffafriol i ddisgybl sy'n ystyried cymryd camau gweithredu, neu sy'n cefnogi person sy'n cymryd camau gweithredu.

Beth arall allwn ni ei wneud i ddatrys yr anghydfod?

Fel arfer, yr hyn sydd orau i bawb yw ceisio datrys anghydfod yn y ffordd symlaf bosibl. Gallai hyn gynnwys gweithdrefnau cwyno'r ysgol, neu wasanaeth datrys anghydfod awdurdod lleol. Mae'n parhau i fod yn briodol trafod y mater â phlant, pobl ifanc a rhieni tra bo hawliad tribiwnlys yn yr arfaeth. Efallai bod problem gyfathrebu wedi bod yn ffactor yn yr anghydfod.

Efallai y bydd ceiswyr yn dymuno defnyddio gwasanaeth cyfryngu annibynnol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Os ydych yn rhan o'r cyfarfodydd cymodi, ni ellid defnyddio'r hyn sy'n cael ei ddweud gennych yn y cyfarfodydd hyn mewn gwrandawiad Tribiwnlys heb eich cydsyniad.

Beth am wasanaethau datrys anghydfod awdurdodau lleol?

Rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gael gwasanaethau datrys anghytundebau annibynnol. Gall y gwasanaethau hyn ddelio ag anghydfod mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol. Mewn rhai achosion, mae'r gwasanaeth ar gael i helpu i ddatrys anghydfodau eraill hefyd. Bydd eich awdurdod lleol yn gallu dweud mwy wrthych am y gwasanaeth hwn ac a yw ar gael i chi.

Efallai y byddech hefyd yn awgrymu defnyddio gwasanaethau cyfryngu neu gymodi annibynnol eraill.

Hyd yn oed ar ôl i'r ceisydd gyflwyno hawliad, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi drafod â hwy. Weithiau mae'n bosibl datrys anghydfodau fel hyn, neu gytuno ar rai agweddau ar eich cais cyn gwrandawiad y Tribiwnlys. Os byddwch, drwy'r trafodaethau hyn, neu drwy'r gwasanaeth datrys anghytundebau, yn dod i unrhyw gytundebau, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys.

2. Hawliadau

Pa hawliadau y gall Tribiwnlys Addysg Cymru ymdrin â nhw?

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn ymdrin â'r rhan fwyaf o hawliadau sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd a honiadau o erledigaeth yn erbyn ysgolion yng Nghymru. Ni allwn ddelio â hawliadau am y canlynol:

- penderfyniadau derbyn i ysgolion a gynhelir; a
- gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir.

Ystyr ysgol a gynhelir yw ysgol y mae'r awdurdod lleol yn ei chyllido ac yn gofalu amdani.

Mae paneli apêl derbyniadau a phaneli apêl gwaharddiadau yn gwrando achosion mewn perthynas â hyn.

Pwy all wneud hawliad?

Gall plant, eu rhieni a phobl ifanc wneud hawliadau yn erbyn cyrff cyfrifol. Bydd pwy bynnag sy'n cyflwyno'r hawliad yn cael ei adnabod fel "y ceisydd".

Nid yw hawliad gan y plentyn ei hun yn effeithio ar hawliau'r rhiant. Caiff rhiant plentyn gyflwyno hawliad hyd yn oed os yw'r plant eisoes wedi gwneud hawliad.

Pwy yw'r corff cyfrifol?

Mae canfod y corff cyfrifol yn dibynnu ar y math o ysgol, ac amgylchiadau pob achos unigol. Byddwn yn nodi pwy yw'r corff cyfrifol pan ddaw'r hawliad i law. Efallai bydd y tabl isod yn help, er bod rhai eithriadau i hyn.

Math	**Corff cyfrifol**
Ysgol a gynhelir	Llywodraethwyr yr ysgol (fel un corff)
Meithrinfa a gynhelir	Awdurdod lleol y feithrinfa
Uned cyfeirio disgyblion	Awdurdod lleol yr uned
Pob ysgol annibynnol	Perchennog yr ysgol
Ysgol arbennig nas cynhelir	Perchennog yr ysgol

Rydym hefyd yn galw'r corff cyfrifol yn "ymatebydd" gan bod rhaid iddo ymateb i hawliad ar gyfer y Tribiwnlys.

Beth sy'n digwydd ar ôl i Dribiwnlys Addysg Cymru gael cais am hawliad?

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn yn cofrestru hawliad ac yn dweud wrthych pryd y mae'n rhaid i chi anfon eich datganiad achos a'ch ffurflen bresenoldeb. Bydd gennych 4 wythnos o'r dyddiad y byddwch yn derbyn datganiad achos yr ymgeisydd i gyflwyno'ch datganiad achos a'ch ffurflen bresenoldeb. Fe welwch ganllawiau ar gyflwyno ffurflenni presenoldeb ar dudalen Cofrestr Gyhoeddiadau ein gwefan.

Ar ddiwedd cyfnod y datganiad achos, byddwn yn sicrhau eich bod chi a'r ymgeisydd yn gweld datganiad achos eich gilydd. Byddwn hefyd yn trefnu gwrandawiad.

Yn y gwrandawiad bydd panel tribiwnlys yn ystyried y datganiadau achos, yn ogystal ag unrhyw beth sydd gennych chi, yr ymgeisydd, a'ch tystion perthnasol i'w ddweud.

Mae'r holl broses, o'r adeg y cawn hawliad i'r adeg pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, fel arfer yn cymryd tua phedwar i bum mis. Weithiau gall gymryd mwy o amser os yw'n achos cymhleth iawn.

A ddylem anghytuno â'r hawliad?

Mae ffurflen hawlio'r ceisydd yn cynnwys blwch dewisol lle gallant ddweud sut yr hoffent weld pethau'n cael eu unioni. Gall y rhain fod yn bethau y byddech yn eu gwneud heb fod angen gwrandawiad tribiwnlys. Os ydych yn cytuno bod gwahaniaethu wedi bod ond yn bwriadu unioni pethau, gall y ceisydd benderfynu tynnu ei hawliad yn ôl.

Beth sy'n digwydd os nad ydym yn gwrthwynebu'r hawliad?

Os nad ydych yn gwrthwynebu'r hawliad, rhaid i chi ysgrifennu atom i ddweud hyn wrthym erbyn diwedd cyfnod y datganiad achos. Rhaid i chi gynnwys gwybodaeth am ba gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i roi terfyn ar y gwahaniaethu. Byddwn wedyn yn ysgrifennu at y rhiant i ofyn a yw'n dymuno tynnu'r hawliad yn ôl. Os na fydd yn tynnu'n ôl, bydd yr hawliad yn mynd ymlaen i'r gwrandawiad ac ni fydd y corff cyfrifol yn gallu bod yn bresennol.

Os ydym yn anghytuno â'r hawliad a fyddwn angen cynrychiolaeth gyfreithiol?

Nid yw cynrychiolaeth gyfreithiol yn hanfodol mewn gwrandawiadau tribiwnlys. Gallwch ddewis cyfarwyddo cynrychiolydd cyfreithiol i fod yn bresennol ynghyd â'r person sy'n cynrychioli'r corff cyfrifol. Os byddwch yn ymgynghori â chynrychiolydd cyfreithiol, dylech wneud hynny cyn gynted â phosibl.

Beth os ydym yn penderfynu peidio ag ymateb?

Os nad yw'r corff cyfrifol yn anfon ymateb erbyn diwedd yr amser a ganiateir, byddwn yn gofyn i gadeirydd tribiwnlys benderfynu pa gamau y dylem eu cymryd. Gallai hyn gynnwys gwrthod caniatáu i chi gymryd unrhyw ran arall yn yr achos.

Beth yw ddatganiad achos?

Eich datganiad achos yw'r wybodaeth rydych chi am i ni edrych arni fel rhan o'r achos. Dyma'ch cyfle i ymateb i'r hawliad, a darparu tystiolaeth.

Sut i gyflwyno'ch datganiad achos

Gallwch gyflwyno eich datganiad achos drwy e-bost neu drwy'r post.

Os ydych yn cyflwyno drwy e-bost, rhaid i chi:

- gynnwys rhestr gynnwys ar ffurf Word, gan nodi enw'r ddogfen, ei dyddiad a'i hawdur;
- cyflwyno'r holl ddogfennau eraill ar ffurf PDF; a
- darparu cyfrineiriau ar gyfer unrhyw ddogfennau sydd wedi'u cloi.

Os ydych yn cyflwyno drwy'r post, rhaid i chi:

- anfon copïau yn hytrach na dogfennau gwreiddiol;
- cynnwys rhestr gynnwys, gan nodi enw'r ddogfen, ei dyddiad a'i hawdur;
- peidio â staplo dogfennau; a
- pheidio ag ychwanegu rhifau tudalennau eich hun.

Y bwndel terfynol o bapurau

Os nad yw'r apelydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, rhaid i chi ddarparu'r bwndel terfynol o bapurau hefyd. Rhaid i chi holi'r apelydd a yw'n cytuno â'r bwndel cyn ei gyflwyno i ni. Bydd Rhan 4 o'r llyfryn hwn yn esbonio bwndeli achos yn fanylach.

Os yw'r apelydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, bydd ei gynrychiolydd yn anfon ei ddatganiad achos atom. Byddwn wedyn yn cyfuno eich datganiad achos gydag un yr apelydd, ac yn cynhyrchu'r bwndel terfynol. Byddwn yn anfon y bwndel atoch chi a'r apelydd o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

Rhaid i chi helpu'r ymatebydd i baratoi'r bwndel drwy ddarparu copïau o unrhyw ddogfennau sydd eu hangen arno. Os nad ydych yn rhannu dogfennau sydd gennych, efallai y bydd y panel yn penderfynu eich bod yn ceisio celu tystiolaeth nad yw o gymorth i'ch achos. Rhaid i'r apelydd hefyd roi unrhyw ddogfennau sydd ganddo i chi, am yr un rheswm.

Tystiolaeth ysgrifenedig hwyr

Gallwch ofyn i banel y Tribiwnlys yn y gwrandawiad a fydd yn ystyried tystiolaeth ysgrifenedig hwyr. Bydd panel y Tribiwnlys yn ystyried eich cais:

- os yw'r hawlydd yn cytuno i gynnwys y dystiolaeth; neu

- os gallwch ddangos nad oedd y dystiolaeth ar gael, ac na allai fod wedi bod ar gael yn rhesymol, cyn y dyddiad cau. Dylech anfon y dystiolaeth hon at y Tribiwnlys a'r hawlydd fel ei bod yn cyrraedd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Bydd y panel yn dal i ystyried barn yr hawlydd.

  Rhaid i'r dystiolaeth hon hefyd fod yn annhebygol o atal y gwrandawiad rhag cael ei reoli'n effeithlon. Gallai cyflwyno dogfennau hir neu gymhleth yn y gwrandawiad achosi anawsterau neu oedi.

Gall y panel tribiwnlys barhau i dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr nad yw'n bodloni'r amodau hyn, ond dim ond os gallwch ddangos bod risg ddifrifol o ragfarn os na dderbynnir y dystiolaeth.

Bydd panel y tribiwnlys yn gwrthod derbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr os yw'n credu y byddai'n groes i fuddiannau cyfiawnder.

Dewch â 5 copi o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i wrandawiad mewn person os na dderbyniodd y tribiwnlys a'r hawlydd y dystiolaeth o leiaf 5 diwrnod gwaith cynt.

Diystyru apêl

Gall y corff cyfrifol wneud cais i'r Tribiwnlys ddiystyru hawliad, yn rhannol neu'n llawn. Os bydd y Tribiwnlys yn diystyru'r hawliad yn llawn, bydd yn dod â'r achos i ben.

Bydd y Tribiwnlys yn diystyru hawliad os:

- nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau'r Tribiwnlys; neu
- nad yw, neu nad yw bellach, o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys; neu
- nad yw'n datgelu unrhyw sail resymol; neu
- mae'n gamddefnydd o broses y Tribiwnlys.

Dylech wneud unrhyw gais i ddiystyru hawliad yn ysgrifenedig, gan nodi'r sail, a'r rhesymau rydych yn dibynnu arnynt, yn llawn.

Dod i gytundeb

Mae trafodaethau rhwng yr hawlydd a'r corff cyfrifol yn aml yn parhau ar ôl i ni gofrestru hawliad. Os byddwch yn dod i unrhyw gytundebau gyda'r hawlydd cyn y gwrandawiad, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys.

Gwrandawiadau

Bydd yn rhaid i chi ddweud wrthon ni pwy sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad. Byddwn yn anfon ffurflen presenoldeb atoch i'w llenwi. Bydd angen i chi gynnwys enwau pawb rydych am ddod gyda chi. Os nad ydych chi'n dweud wrthon ni pwy sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad efallai na fyddan nhw'n gallu bob yn bresennol yn y gwrandawiad.

Edrychwch ar ein llyfryn *Canllaw i ymatebwyr ar lenwi ffurflen presenoldeb (ETW26)* i gael gwybodaeth ar bwy sy'n gallu dod i'r gwrandawiad.

3. Beth i'w gynnwys yn eich datganiad achos

Pa wybodaeth sy'n hanfodol?

Cyn dyddiad cau'r datganiad achos, mae rheoliadau'r Tribiwnlys yn nodi bod yn rhaid i chi gyflwyno:

- copi o'r penderfyniad dadleuol (os yw'n gymwys);
- copi o CDU y plentyn neu'r person ifanc, unrhyw ddogfennau sydd ynghlwm wrth y CDU neu'n rhan ohono ac, os yw ar gael, copi o'r adolygiad diweddaraf (os yw'n gymwys);
- datganiad achos; ac
- yr holl dystiolaeth arall yr hoffech ddibynnu arni nad yw'r hawlydd eisoes wedi'i chyflwyno.

Rhaid i'r datganiad achos:

- gynnwys barn y plentyn neu'r person ifanc ar y materion dan sylw yn yr hawliad, neu'r rhesymau pam nad yw'r farn hon wedi'i chynnwys
- cael ei lofnodi gan berson y mae'r corff cyfrifol wedi'i awdurdodi i lofnodi datganiadau achos ar ei ran; a
- datgan a yw'r corff cyfrifol yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl.

Os yw'r awdurdod lleol yn bwriadu gwrthwynebu'r hawliad, rhaid i'w ddatganiad achos ddatgan:

- ar ba sail y gwrthwynebir yr hawliad, neu unrhyw ran o'r hawliad;
- enw a chyfeiriad ei gynrychiolydd ac, os yw ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd;
- y cyfeiriad lle dylai'r Tribiwnlys anfon dogfennau;
- crynodeb o'r ffeithiau sy'n ymwneud â'r penderfyniad dadleuol;
- y rheswm neu'r rhesymau dros y penderfyniad dadleuol, os nad yw wedi'i gynnwys yn y penderfyniad; ac
- y camau, os o gwbl, sydd wedi'u cymryd i ddatrys yr anghydfod.

Pa wybodaeth arall a ddylid ei gynnwys?

Dylai eich ymateb i'r datganiad achos nodi'r ffeithiau perthnasol fel y gwyddoch amdanynt. Dylech fanylu ar ddigwyddiadau perthnasol, anabledd y plentyn, a gwybodaeth gefndir amgylchiadol (e.e. polisïau'r ysgol, anawsterau cynharach).

Rhaid i unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig yr hoffech ei chyflwyno fod yn yr ymateb neu fel atodiad iddo. Dylai eich ymateb hefyd nodi'r dadleuon yr ydych am eu cyflwyno. Dylech roi cymaint o fanylion ag y credwch sy'n angenrheidiol i gyflwyno'ch achos. Ni

all penderfyniad y Tribiwnlys ond ystyried y dystiolaeth y mae'r Corff Cyfrifol a'r rhiant yn ei darparu. Os ydych am i'r Tribiwnlys ystyried rhywbeth, gwnewch yn siŵr ei fod yn y dystiolaeth

Anabledd y disgybl a gwybodaeth amdano

Dylech ddweud a ydych yn derbyn bod y disgybl yn anabl o dan y diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Os nad ydych yn derbyn bod y plentyn yn anabl, dylech ddweud pam. Os ydych yn derbyn bod y plentyn yn anabl ond nad oedd neb yn yr ysgol yn gwybod, neu nad oedd modd disgwyl yn rhesymol iddynt wybod pan ddigwyddodd y gwahaniaethu honedig, dylech egluro hyn.

Cofiwch, os caiff unrhyw aelod o staff yr ysgol wybod am anabledd disgybl, ystyrir bod yr ysgol gyfan yn gwybod amdani. Os nad oedd unrhyw un yn gwybod amdano, bydd yn ddefnyddiol nodi'r camau yr ydych wedi'u cymryd i alluogi rhieni i roi gwybod i chi am anableddau eu plant. Os yw rhiant wedi gofyn i chi gadw natur neu fodolaeth anabledd plentyn yn gyfrinachol, dylech ddweud wrthym.

Y ffeithiau

Efallai yr hoffech roi sylwadau ar faterion ffeithiol. A ydych yn derbyn bod yr hyn a ddywedodd yr ceisydd wedi digwydd mewn gwirionedd? Os oes rhywfaint o hanes i'r hawliad y byddai'n ddefnyddiol i ni wybod amdano, efallai yr hoffech ei grynhoi. A oes rhywfaint o gefndir ffeithiol sylfaenol y dylai'r panel tribiwnlys ei wybod?

Cyfiawnhad

Os ydych yn derbyn adroddiad y rhieni o'r hyn a ddigwyddodd, ond yn ystyried bod cyfiawnhad i'r gwahaniaethu yn berthynol i anabledd y plentyn, bydd angen i chi ddweud pam. Bydd angen i chi ddangos i ni fod y driniaeth wedi'i bwriadu i ddiwallu amcan dilys mewn dull teg, cytbwys a rhesymol.

Efallai hefyd y byddwch eisiau dweud wrthym sut yr ydych wedi ystyried dulliau eraill o gwrdd â'r amcanion na fyddai wedi cael effaith wahaniaethol. Ni ellir cyfiawnhau triniaeth lle y darganfyddir bod gwahaniaethu uniongyrchol neu fethiant i wneud addasiadau rhesymol wedi digwydd.

Triniaeth llai ffafriol

Wrth ystyried yr hawliad efallai y bydd angen i ni sefydlu a ydy'r disgybl wedi dioddef gwahaniaethu oherwydd ei anabledd ei hun neu oherwydd anabledd rhywun arall. Bydd angen i ni ystyried a ydy'r disgybl wedi'i drin yn llai ffafriol nag yr ydych (neu y byddech) yn trin disgybl arall heb anabledd.

Os nad ydych yn ystyried bod y disgybl anabl wedi'i drin yn llai ffafriol na disgybl arall heb anabledd, dylech ddweud wrthym am hyn.

Addasiadau rhesymol

Efallai y bydd angen i chi ddweud wrthym am unrhyw gamau addasu rhesymol yr ydych wedi'u cymryd i osgoi anfantais sylweddol lle mae darpariaeth, maen prawf neu arfer wedi rhoi'r disgybl anabl o dan anfantais sylweddol.

Mae anfantais sylweddol yn golygu rhywbeth mwy na mân neu ddibwys. Gall cam rhesymol, er enghraifft, fod yn achos o ddiwygio polisi neu'n newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud.

Nid oes rhaid i ysgolion newid adeiladau. Rhaid i ysgolion ac Awdurdodau Lleol gynllunio i wella mynediad i adeiladau dros amser ond mae hon yn ddyletswydd wahanol.

Mae addasiad rhesymol yn cynnwys darparu offer cymorth a gwasanaethau ategol. Cymorth neu wasanaeth ategol yw unrhyw beth sy'n rhoi cymorth neu gynhaliaeth ychwanegol i berson anabl. Os ydych o'r farn nad oes unrhyw addasiad rhesymol y gellid ei wneud, dylech ddweud wrthym sut y gwnaethoch ystyried pa gamau y gellid bod wedi'u cymryd a pham yr ydych wedi dod i'r casgliad na fyddent yn rhesymol.

Atebion

Os ydych yn gwrthwynebu'r hawliad yn gyfan gwbl ai peidio, efallai y byddwch yn dymuno rhoi barn ar unrhyw atebion a gynigiwyd gan y rheini. Rydym wedi cynnwys adran ddewisol ar y ffurflen hawliad i rieni ddweud beth yn eu barn nhw y dylid ei wneud i gywiro pethau. Os ydyn nhw wedi llenwi hwn, dywedwch wrthym ba mor bell y byddai'r mesurau a awgrymwyd yn rhai rhesymol. Os oes gennych awgrymiadau eich hun, gall y rhain hefyd ein helpu i benderfynu beth y dylid ei wneud.

Dod i gytundeb

Dim ond pan fo anghytundeb rhyngoch chi a'r rhieni y bydd hawliad yn dod atom ni, ond mae'n gwbl gywir i barhau i gynnal trafodaethau rhwng y partïon ar ôl gwneud hawliad. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddweud wrthym am unrhyw rannau o'r hawliad yr ydych chi a'r rhieni wedi llwyddo i'w datrys ar ôl i ni dderbyn yr hawliad.

4. Paratoi bwndel

Cyfrifoldebau

Os yw'r apelydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, bydd ei gynrychiolydd yn anfon ei fwndel datganiad achos atom. Byddwn wedyn yn cyfuno eich datganiad achos gydag un yr apelydd, ac yn cynhyrchu'r bwndel terfynol. Byddwn yn anfon y bwndel atoch chi a'r apelydd o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

Os nad yw'r apelydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, rhaid i chi baratoi'r bwndel terfynol ar ei ran.

Paratoi bwndel

Dylai bwndel fod yn un ffeil PDF o'r holl ddogfennau, ac un ffeil Word gyda mynegai, yn manylu cynnwys y bwndel PDF. Dylai'r mynegai nodi'r math o ddogfen, dyddiad, awdur (gan gynnwys swydd/proffesiwn), a rhif tudalen ar gyfer pob dogfen.

Os ydynt ar gael, rhaid i'r bwndel gynnwys:

1) Y cais am hawliad, unrhyw seiliau hawliad diwygiedig a'r Datganiad cyfredol (os yw'n gymwys)
2) Ymateb y Corff Cyfrifol i'r hawliad ac unrhyw ymateb atodol neu ddiwygiedig
3) Unrhyw geisiadau am newidiadau a wneir gan barti
4) Gorchmynion Tribiwnlys ac unrhyw ddogfennau y gorchmynnodd y Tribiwnlys iddynt gael eu ffeilio
5) Unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng y partïon
6) Datganiadau tystion sydd i'w rhoi mewn tystiolaeth

Bydd angen i chi sicrhau bod yr holl ddogfennau'n gyflawn, yn ddarllenadwy, ac nad ydynt yn cael eu dyblygu.

Ar gyfer eitemau 3 i 6, mae terfyn tudalen o 200 tudalen. Nid targed yw'r terfyn hwn ac ni fydd angen y nifer hwn o dudalennau ar lawer o achosion. Nid yw eitemau 1 a 2 wedi'u cynnwys yn y terfyn 200 tudalen. Mae hyn yn sicrhau bod partïon i'r gwrandawiad yn cael cyfle i gyflwyno eu hachos yn llawn. Os ydych am gynyddu'r terfyn tudalennau, bydd angen i chi wneud cais i'r Tribiwnlys. Dylai'ch cais gynnwys rhesymau clir ynghylch pam mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cael gwrandawiad teg ar gyfer y mater.

Cyflwyno'r bwndel

Cyn cyflwyno'r bwndel i'r Tribiwnlys, dylech anfon bwndel drafft at yr apelydd i'w ystyried. Os na fydd yn ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith, cewch dybio ei fod yn cytuno â'r bwndel.

Disgwylir y bwndel heb fod yn hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl eich cyfnod datganiad achos. Os nad yw'r bwndel yn dilyn y canllawiau hyn, bydd y Tribiwnlys yn rhoi 3 diwrnod i chi ddatrys unrhyw broblemau. Os byddwch yn methu â bodloni'r dyddiad cau, gall y Tribiwnlys eich atal rhag cymryd rhan yn yr achos.